# PERTHYN

Ebrill 2024 325



Mae heddwch byd yn fusnes brwnt
Sdim nythu mewn moethusrwydd,
Y glomen wen sy'n llwch y gad
Yn baeddu ei hadenydd.

*RAJ*

# Gair gan y Gweinidog



'Teg wawriodd arnom ddydd…' Dyna deitl cyfrol hynod o ddarllenadwy, gyhoeddwyd gan Henaduriaeth Llŷn ac Eifionydd, i nodi uniad swyddogol yr henaduriaeth honno yn 2007 gyda Henaduriaeth Gorllewin Meirionydd. Fe ddaeth Henaduriaeth Gorllewin Gwynedd i fod, henaduriaeth sy'n ymestyn o Aberdaron i Aberdyfi gan hwyluso gweinyddiad a strwythr Eglwys Bresbyteriadd Cymru. Yng ngeiriau Ifans y Tryc, 'Scersli Bilîf!'
Beth bynnag am hynny, mae'r gyfrol chwedeg tudalen gan y diweddar Barchedig Ddr Goronwy Prys Owen yn werth ei darllen a'i hail ddarllen fel y bu i mi ei wneud yn ddiweddar. Pentref bychan yw Pentreuchaf, pentref fy magwraeth yn Llŷn, dim ond ychydig dai ar groesffordd. Ymhlith y tai hynny fe gaed capel, Capel M C Pentreuchaf, heb unrhyw enw crand! Plwy Llanor, Llanor yn y pentre nesaf ac felly bu i'r Tadau Methodistaidd ddal ar eu cyfle i dechrau cynnal addoliad yn yr ardal a hynny mor gynnar a 1771.
Ychydig flynyddoedd yn ôl symudodd yr achos i'r festri fach a gwerthwyd y capel ond trist nodi i'r achos gau yn gyfangwbwl y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'r gynulleidfa lawr i rhyw saith ar y mwyaf, yn dilyn Cofid, anodd oedd parhau, a daeth yr achos i ben. Da dweud bod y Tŷ Capel yn parhau yng ngofal yr henaduriaeth ac yn gartref i deulu bach lleol, gyda'r festri bellach yn estyniad o'r tŷ, ond mae'r achos wedi dod ben. Fe ges gyfle yr wythnos ddiwethaf i ymweld â phentref fy magwrfa ac aros am ychydig funudau i gofio am fendithion ddoe. Mae cyfrol Goronwy Prys Owen yn cyfeirio at Gyfrifiad Crefyddol 1851 ac yn nodi rhai ystadegau difyr ac yn eu plith, rhif mynychwyr y gwahanol achosion. Wrth linell Pentreuchaf fe geir y canlynol: Pentreuchaf, SEFYLL: 360; EISTEDD:200 h.y faint oedd y capel yn ei ddal. Dyma gefndir yr hen bennill:

‘Methodistiaid creulon cas
mynd i capal heb ddim gras;
gosod seti i bobl fawr
gadael tlodion ar y llawr!’

Fe fyddai capel anghydffurfiol yn addasu tai a.y.y.b ac ar y dechrau, byddai’n rhaid sefyll ond ychydig seti mewn amser yn cael eu hadeiladu a phobl yn talu am gael eistedd ynddynt. Byddai mam yn talu am sêt rhif 53 yng Nghapel Pentreuchaf mewn atgof o hynny!
YN BRESENNOL AR DDYDD Y CYFRIFIAD YN 1851: PNAWN: 218; NOS: 189; YSGOL Sul: 152. Mae yna ystadegau ychwanegol yn y gyfrol e.e aelodaeth yr henaduriaeth yn cyrraedd uchafbwynt yn 1907: 9989; a phlant yn 3785.
Mae yna un sylw pellach sef canran y boblogaeth. Tuedd amser a hanes yw awgrymu bod canran uchel o’r gymuned yn mynychu addoliad ond nid yw hynny’n wir! Mae’r ystadegau yn dangos mai rhyw 45–50% o’r boblogaeth oedd yn mynychu ac yn codi i rhyw 60% mewn trefi.
Y fath newid a hynny mewn llai na dwy ganrif. Beth bynnag am hynny, y gwahoddiad i chi a fi yw symud o’r gorffennol i’r presennol a darganfod Duw ar waith o’r newydd. Ac i mi mae hynny’n golygu dau beth yn fwy na dim sef gostyngeiddrwydd ac ymgysegriad. Yng ngeiriau Iesu, ‘A dywedodd wrth bawb, “Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes bob dydd a'm canlyn i.”’ Luc Pen 9 ad23
A ninnau newydd ddathlu’r Pasg a’i neges o goncwest a bywyd newydd, a’n golygon tuag at y Pentecost gyda’r ddealltwriaeth o’r Eglwys, cymuned gymodol, gydradd, Duw ar y ddaear, gadewch i ni ddiolch am gyfoeth y gorffennol, gadewch i ni weddïo am y gallu i adnabod egin gwyrdd y dystiolaeth Gristnogol yn ein gwlad, a gadewch i ni mewn gwyleidd-dra glywed llais Duw yn ein galw o’r newydd i fywyd o addoliad ac o wasanaeth. Cofiwch ein bod yn fwy na ystadegau!

Bendith. Eifion.

# Newyddion

## Cofion a dymuniadau gorau

Anfonwn ein cofion at Jeremy Turner, Celia Jones a Margaret Stephens a fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf. Anfonwn ein cofion hefyd at ein aelodau sydd yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl ac yn eu cartrefi eu hunain

## Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Anne Edwards yn Nghartref Allt y Mynydd, Llanybydder. Cydymdeimlwn â'i mab, Brian a'r teulu.
Cydymdeimlwn ag Elin Haf Gruffydd Jones a Sian Howys ar farwolaeth tad Elin, sef Dr Gruff Jones, Treffynnon. Hefyd â Huw, Gwydion a Gethin, yr wyrion.
Cydymdeimlwn hefyd ag Iwan Bryn a Gwennan, Marged a Tomos ar farwolaeth modryb Iwan, sef Miss Mair Parry, Rhydymain.

## Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Mr Wyn Thomas sydd wedi dathlu ei ben blwydd yn 90 oed yng Nghartref Tregerddan. A llongyfarchiadau i Andrew Morgan ac Andrew Evans sydd wedi dathlu eu pen blwyddi'n 60 oed yn ddiweddar.




**Cofiwch, os ydych yn defnyddio cymorth clyw bod system 'loop' ar gael yn y Morlan yn ogystal â Chapel y Morfa.**

# NEWYDDION EBENEZER



Anfonwn ein cofion cynhesaf at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

Mae'n braf gweld cynifer yn mynychu'r Gwasanaethau a gynhelir unwaith bob pythefnos. Bydd dau wasanaeth o dan ofal ein Gweinidog yn ystod mis Ebrill, sef Ebrill 14 ac Ebrill 28 am 2.15. o'r gloch.

**Cydymdeimlad**

Trist yw cofnodi marwolaeth Betty Bailey, Cae Job, a fu'n ffyddlon iawn yn Ebeneser ar hyd y blynyddoedd. Cydymdeimlwn â'i theulu a'r ffrindiau a fu'n ofalus ohoni.

---

Golygyddion y mis hwn yw Sharon ac Arwel. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn MAI at Hywel Lloyd erbyn dydd Sul, 21 Ebrill, os gwelwch yn dda.

---

# PRYSURDEB Y CLWB SUL



Cynhaliwyd Gwasanaeth teulu Gŵyl Dewi unedig yn y Morlan ar ddydd Sul, Mawrth 3ydd. Cafodd plant Ysgolion Sul Seion a Chapel y Morfa gyfle i fynd allan gyda'i gilydd i fwynhau gweithgareddau crefft. Roedd yn brofiad hyfryd i bawb.

Yn ystod mis Mawrth, yng nghyfnod y Grawys, buom yn casglu arian tuag at waith UNICEF yn Gaza gan ychwanegu at y casgliad yn y botel losin fawr. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Fel rhan o thema'r tymor, Taith, aethom ar daith i lan Môr Galilea a dysgu am yr Iesu yn galw'r pedwar pysgotwr i'w ddilyn – Iago, Ioan, Seimon Pedr ac Andreas.



Wrth agosáu at Y Pasg cafwyd cyfle i greu cardiau Sul y Mamau a chynnal Llanllanast y Pasg ar ddau Sul. Dymunwn rannu ein gwaith gyda chi trwy gyfrwng y lluniau ac efallai y gwelwch ein bod wedi bod yn brysur a chael hwyl yn y Festri yn ystod y gwasanaethau yn Y Morlan. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddychwelyd i fod yn rhan o'r Gwasanaeth yn y capel ar ôl i bawb ddychwelyd yno.






Cofiwch:

Ebrill 28 – dydd Sul y Gymanfa
Capel Bethel Tal-y-bont
10 o'r gloch – Gwasanaeth y plant a'r ieuenctid
5.30 Cymanfa Ganu yr Oedolion
Arweinydd: Delyth Hopkins Evans

# Cofio IOLA JONES

Brodor o bentref Ceinws oedd Iola, hen bentref bach syml a chapel yn y canol. Fe'i ganwyd yn rhif 2 Chapel St, yn ferch i John Trevor Jones a Catherine Jones, y pedwerydd o saith o blant, a dylanwad aelwyd a chapel a chymuned yn rhoi bod i batrwm o fywyd. Yn dilyn cyfnod o addysg ffurfiol yn Ysgol Gynradd Corris, fe symudodd Iola i Ysgol Uwchradd Machynlleth, ond yn bymtheg oed, fe drodd ei golygon tuag at Lundain. Roedd cyfle i ehangu gorwelion a hynny trwy hyfforddi yn ysgrifenyddes i Gyfarwyddwr un o weithfeydd y Ceinws.

Yno y bu am dair blynedd cyn dychwelyd gartref a pharhau ei bywyd gwaith fel ysgrifenyddes, yn gyntaf gyda'r Urdd ac yna Siop y Pethe. Hawdd yw dychmygu trefnusrwydd a thaclusrwydd Iola a bu'n dda i'r cyflogwyr hynny brofi o'i diwydrwydd a'i gwasanaeth. Cyfarfu â Geraint yn Eisteddfod Tal-y-Bont, cyfarfyddiad arweiniodd at garwriaeth a phriodas. Bu'r ddau'n byw gyda mam Geraint i ddechrau, cyn symud i George St, Aberystwyth ac yna Rhoshendre.



Iola a Megan Tudur a Siop y Pethe yn ei hanterth

Bu Rhoshendre yn gartref yng ngwir ystyr y gair, yn llawn cynhesrwydd a chroeso a'r ddau wrth eu boddau yn mwynhau cwmni a sgwrs. Byddai'n rhaid rhoi y tegell ymlaen a'r sgwrs yn arwain at deulu a bywyd capelyddol y gorffennol a'r presennol.

Bu gofal Iola dros Geraint yn esiampl, yn arbennig yng nghyfnod olaf ei fywyd, ac yn gyflawniad o addewidion barodd am bron i chwedeg tri o flynyddoedd. Yn nyddiau iechyd, bu'r ddau yn teithio ac yn mordeithio ond uchafbwynt y flwyddyn oedd yr Eisteddfod Genedlaethol, Geraint yn stiwardio a Iola yn dilyn y cystadlu. Y ddau wrth eu bodd yn cyfarfod hen ffrindiau ac yn cael pleser mawr wrth brofi'r arlwy gystadleuol. Galwedigaeth, cartref, hamdden ond hefyd capel. Ar hyd ei hoes bu'n ffyddlon i'r Eglwys, yn addoli ac yn cefnogi, a'i charedigrwydd i'r Ysgol Sul yn adrodd cyfrolau am ei chariad tuag at blant.

Wedi profi o ofal arbennig Cartref Tregerddan, bu ei dirywiad yn un sydyn, a bu farw'n dawel ar y 15fed o Chwefror 2024.
Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu profedigaeth.
Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ar y 5ed o Fawrth ac yn dilyn ym mynwent tre Machynlleth gyda'r Parch. Eifion Roberts yn gwasanaethu.

## Cwmni'r Morlan



Mae cwmni'r Morlan yn bwriadu ailgydio ynddi.
Tybed a fyddech chi'n mwynhau bod yn rhan o'r hwyl?

Efallai eich bod am fwynhau y llifoleuadau: ewch amdani!

Ond efallai bod yn well gennych chi'r cysgodion a helpu gyda props, set, goleuo, sain, gwerthu tocynnau ... mae angen pob dawn yn y cwmni.

Ewch amdani. Cysylltwch â John Roberts am sgwrs
johnminyfron@hotmail.co.uk

# Cofio JEAN ELIZABETH PORTEOUS

"Jean y Mans" oedd ei llysenw yn Aberaeron ei magwraeth, merch gweinidog Tabernacl a gwraig amser-llawn y gweinidog, George ac Annie Davies. Roedd hi'n ferch hynod o brydferth ac afiaethus a chanddi ei meddwl ei hun ym mhob peth.

Cafodd yrfa ysgol dra llwyddiannus cyn mynd ymlaen i Aber a chael gradd ragorol yn Lladin. Ymarfer Dysgu wedyn a'i phenodi i fod yn athrawes Lladin yn Cheltenham Ladies' College. Tra yno cwrddodd ag Alistair Porteous a ddaeth yn ŵr iddi a thad i'w thri phlentyn.



Ag Alistair ar i fyny ar garlam ym myd diwydiant, cafodd ddamwain ddifrifol a'i gadawodd yn rhannol fethedig weddill ei ddyddiau, gan adael Jean i gario pen trymaf baich cynnal y cartref a'r teulu.

Drwy'r tew a'r tenau glynodd wrth ffydd Gristnogol ei rhieni, yn ffyddlon yn y cwrdd ac yn hyddysg yn yr ysgrythurau. Roedd cwmpas ei diwylliant yn eang a'i chariad at lenyddiaeth yn angerddol. Wedi ymddeol i Aberaeron dychwelodd at ei gwreiddiau anghydffurfiol Cymraeg; parhaodd hynny ar ôl symud i Aberystwyth. Adferodd ei diddordeb mewn emynyddiaeth ac yng nghyfnod hir ei gwaeledd buon ni'n dau yn galw i gof, yn craffu ar, ac yn ymhyfrydu yng ngwaith Pantycelyn ac Ann Griffiths yn enwedig.

Byddai hi'n eu hadrodd yn nhrymder ambell i noson ddi-gwsg a chael cysur yn eu cyfoeth di-ben-draw.

Yn ychwanegol at hyn roedd ganddi ddiddordeb byw mewn gwleidyddiaeth a materion cydwladol; bu'n aelod o'r Blaid Lafur ac yna o Blaid Cymru. Cwbl addas oedd i gyfraniadau ei hangladd fynd tuag at Gymorth Cristnogol.

**Cynog Davies (Brawd)**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Nia, Huw a David a'u teuluoedd yn eu profedigaeth. Bu'r angladd yn Amlosgfa Aberystwyth ar y 19eg o Chwefror gyda'r Parchedigion Eifion Roberts a John Tudno Williams yn gwasanaethu.

## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Capel Soar, Pontyberem
Dydd Iau, Mai 16eg, 2024
Cyfarfod y prynhawn am 2 o'r gloch

*Anerchir gan Miriam Watling, Llundain*

Cyfarfod yr hwyr am 5 o'r gloch
*Anerchir gan Siân Wyn Rees, Cymdeithas y Beibl*
Croeso cynnes i frodyr a chwiorydd.

Os oes rhywun yn dymuno ychwanegu at gyfraniad Capel y Morfa tuag at brosiectau cenhadol y Sasiwn yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor, bydd Eleri Davies yn barod i dderbyn eich cyfraniad.

*Diolch i Gymdeithas y Morfa am eu cyfraniad hwy.*

# Pasg Hapus!!!

Y Morlan yn orlawn – unwaith eto.

Diolch i Eifion am arwain gwasanaeth cofiadwy.
Gwasanaeth teuluol mewn awyrgylch gartrefol braf.

Mewn cof o'th aberth wele ni,
O Iesu, 'n cydnesáu;
un teulu ydym ynot ti,
i'th garu a'th fwynhau.
CFf 631








Croesawu ffrindiau a theulu gartref o bell ac agos.
Hwyl a hapusrwydd a wyau Pasg o bob math!



Heddiw cododd Crist yn
fyw, Haleliwia!
CFf 555





Gorfoleddwn, llawenhawn:
gwag yw'r bedd, a'r nef yn llawn;
rhoddwn ynot ti ein ffydd,
arwr mawr y trydydd dydd.
CFf 554

# Cynrychiolydd y Cenhedloedd Unedig yn rhoi Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen



Bydd Darlith Flynyddol Morlan-Pantyfedwen 2024 yn cael ei chynnal yn y Morlan nos Fawrth y 9fed o Ebrill am 5.30 o'r gloch. Y darlithydd eleni fydd yr Athro Virginia Gamba, Cynrychiolydd Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Blant a Gwrthdaro Arfog – ac mae'n fraint fawr i ni gael ei chroesawu atom i'r Morlan.

Ganed Virginia Gamba yn Buenos Aires. Aeth i Brifysgol Newcastle upon Tyne i astudio am radd mewn Astudiaethau America Ladin a Sbaeneg, cyn dod i Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth i wneud cwrs Meistr mewn Astudiaethau Strategol. Ers hynny, cafodd ei gwneud yn Gymrawd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae wedi cael gyrfa hir ac amrywiol ym maes heddwch a diogelwch a materion diarfogi, a hynny yn Llundain, Affrica, Chicago a'r Ariannin.

Teitl y ddarlith hon fydd **Building Connections for the Common Good: Dialogue and Trust in the Pursuit of Peace**, ac ynddi fe fydd Yr Athro Gamba yn trafod ychydig o'r heriau sydd yn rhan o drafodaethau ar bob lefel, o'r byd-eang i'r dydd-i-ddydd. Dywed fod yn "rhaid bod yn barod i wrando heb ragfarn a pheidio addo heb y sicrwydd o allu cyflawni. Rhaid sicrhau'r gofod a'r lle i allu adeiladu heddwch."

Darlith Saesneg fydd hon eleni, yn cael ei chadeirio gan yr Athro Mererid Hopwood.

Os am fanylion pellach, cysylltwch ag Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen ar 01970 612806 neu post@jamespantyfedwen.cymru.

# Dydd Gweddi'r Byd 2024

Mudiad eciwmenaidd byd-eang a arweinir gan ferched yw Dydd Gweddi'r Byd. Eleni, paratowyd y gwasanaeth gan ferched Cristnogol Palesteina ar y thema **"Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad."**

Cynhaliwyd y gwasanaeth Cymraeg yn festri Capel y Morfa ar ddydd Gwener, Mawrth 8fed. Paratowyd arddangosfa o luniau arbennig yn y festri ynghyd â jasmin, planhigyn cactws, olew olewydd, dail palmwydd a basgedi o ffrwyth – orenau, lemonau a leimiau – y cwbl yn nodweddu Palesteina. Chwaraewyd cerddoriaeth o Balesteina i gyflwyno'r wlad. Aelodau o eglwysi'r dref oedd yn cymryd rhan, sef Eglwys y Santes Fair, yr Eglwys Gatholig, Bethel, Seion a'r Morfa. Paratowyd te a lluniaeth ysgafn gan rai o'n haelodau ar ôl y gwasanaeth a braf oedd cael cyfle i gymdeithasu. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.



# GEIRIAU, A MWY O EIRIAU

*Y golofn olaf i Cennad*

Onid oes gynnon ni berthynas ryfedd gyda geiriau? Maen nhw'n gallu bod yn eiriau unigol, syml, yn dweud calon y gwir. Ac yn gallu bod yn gwmwl anferth, dwys, yn cuddio a mygu'r galon honno.

Atgoffwyd fi o hyn wrth wrando ar sgwrs (ddifyr dros ben) rhwng Dei Tomos a Jason Walford Davies am Waldo Williams. Dyma enghraifft, eithafol, o'r ffenomenon dwi'n ei chrybwyll uchod. Bardd ysgrifennodd gyfrol neu ddwy o berlau gwerthfawr ond sydd wedi creu diwydiant anferth o eiriau o'i gwmpas.

Siawns nad ydy hyn yn deyrnged i'r bardd a'r ysgolheigion bod cyn lleied o eiriau wedi creu cymaint o waith meddwl. Ond siawns, hefyd, nad oes yna ddeuoliaeth rhwng yr holl eiriau ac amser sy'n cael eu treulio yn eu trafod, a'r amser sy'n cael ei dreulio yn myfyrio dros y gwreiddiol.

Tua'r un pryd â'r cyfweliad uchod ges i'r pleser o wrando ar Peter Thomas, Aberystwyth, yn pregethu mewn cyfarfod Gŵyl Ddewi ac yn dwyn i gof rhai o'r geiriau oedd wedi cael eu dweud yn ei gwrdd sefydlu o yn Rhydlewis, rai degawdau yn ôl. Prawf, bod geiriau doeth ac amserol yn gallu talu am eu lle.

Ond eto, dychmygwch y biliynau o eiriau sy'n cael eu rhannu'n flynyddol wrth drafod Y Gair. O gymryd yr ymadrodd, Y Gair, yn llythrennol am eiliad, be fydden ni'n ddewis fel un gair fyddai'n crynhoi'r gweddill yn ein Beibl? 'Gras', 'maddeuant', efallai. Ond, 'cariad', debycaf. Hwnnw'n ei dro yn crynhoi'r geiriau pwysicaf eraill i gyd. Wedi'r cyfan, 'Duw cariad yw.' Ond fe fydd miliynau o eiriau wedi eu treulio (eu gwastraffu?) yn trafod y geiryn hwnnw a pheryg ein bod ni wedi treulio llawer mwy o amser a geiriau yn siarad a thrafod a sgwennu am gariad nac yn gweithredu'n gariadlon.

Ond eto mae trafod yn gwbl angenrheidiol. I'r Iddewon mae dehongli parhaus yn bwysig, amwysedd sy'n allweddol, maen nhw'n dehongli a gwneud nodiadau tra da ni'n tanlinellu a diffinio. Ac onid yr Iddewon sy'n iawn? Wrth drafod mae dehongliadau newydd o'r Gair, o'r geiriau hyn, yn dod i'r amlwg.

Ond mae'r ddau draddodiad wedi creu cwmwl dwys o gwmpas calon y gwir.

Os yw trafod yn angenrheidiol i symud ymlaen onid oes peryg ei fod o'n ein clymu ni'n ein hunfan yn ogystal. Wedi'r cwbl 'wrth eu gweithredoedd yr adnabyddwch hwynt', 'edrychwch (nid gwrandewch na darllenwch) sut mae'r rhain yn caru ei gilydd'.

Yn Gymraeg mae'r gair 'pregethu' wedi cymryd arno ystyr arall y tu hwnt i gyflwyno pregeth, 'dyma fo'n pregethu eto' yn bwrw iddi i gyflwyno barn yn ddigymell, yn ddigroeso ac yn aml yn ddiddiwedd.



**Sul y Mamau 2024**

Nid mater o'r naill na'r llall ydy hi, wrth gwrs, ond efallai bod angen cofio nad yw gormod o ddim yn dda. Mae geiriau'n bwysig eithriadol i mi, ond efallai nad ydw i'n rhoi digon o gyfle i mi fy hun chwilio a mwynhau y mannau tawel y mannau tenau hynny lle mae'r bydol a'r ysbrydol yn cwrdd â'i gilydd yn ddieiriau. Efallai bod hi'n amser chwilio am dawelwch!

*RAJ*

**DYDD SADWRN, 27 EBRILL 2024**

11.00–3.30

Festri Capel y Morfa, Stryd Portland, Aberystwyth

Cymdeithas Emynau Cymru

**Gwyn Davies**: Emynau Nantlais, **Rhiannon Davies**: Azariah Shadrach, Eifion Jones: Gyrfa Dr David Evans, Rhidian Griffiths: Cofio Alun Davies

Ffi (yn cynnwys cinio bwffe ysgafn): £12; cofrestru yn unig £5

Ateber erbyn **22 Ebrill 2024**: Rhidian Griffiths, 01970 610160 / 07506 482661 rhcgriffiths@btinternet.com

# *CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION 2024*

*CAPEL BETHEL, TALYBONT*

*DYDD SUL 28 EBRILL 2024*
*am 5.30 o`r gloch.*
*Arweinydd: Mrs Delyth Hopkins Evans, Pontrhydygroes*

## *TREFN Y RIHYRSALS*

| ***Noson*** | ***Dyddiad*** | ***Lleoliad*** | ***Amser*** |
|---|---|---|---|
| ***Nos Fercher*** | ***27 Mawrth*** | ***Capel Seion Stryd y Popty*** | ***7.00*** |
| ***Nos Fercher*** | ***10 Ebrill*** | ***Capel Bethel Aberystwyth*** | ***7.00*** |
| ***Nos Fercher*** | ***17 Ebrill*** | ***Capel y Morfa Aberystwyth*** | ***7.00*** |
| ***Nos Fercher*** | ***24 Ebrill*** | ***Capel Bethel Talybont*** | ***7.00*** |

HEDDWCH PEACE
AR WAITH ACTION WALES




MAE POB LLYGAD AR RAFAH
ALL EYES ARE ON RAFAH

**GWYLNOS GAZA**


Bob Dydd Mawrth 5-6 yp
a Dydd Mercher 12-1 yp
Sgwâr Owain Glyndwr,
Aberystwyth

**GAZA VIGIL**

Every Tuesday 5-6 pm
and Wednesday 12-1pm
Owain Glyndwr Square,
Aberystwyth

# *Poems from the Soul* (Calon, 2024), M. Wynn Thomas a Ruth Jên Evans

Mae hon yn gyfrol hardd, foethus a hylaw. Cyfrol hyderus o ran ei gwneuthuriad. Mae'n daith gerdded drwy rai o emynau mwyaf adnabyddus Cymru a'r tywysydd yn aros wrth bob carreg filltir i ryfeddu at yr olygfa a thynnu sylw at ambell beth nodedig yn y tirlun.




Fe fydd llawer o'r cynnwys yn gyfarwydd i chi, ond dydy hynny ddim yn rheswm i beidio mynd ar y daith, wedi'r cwbwl mae tywysydd da yn gallu taflu goleuni gwahanol ar y llwybrau mwyaf cyfarwydd ac oherwydd natur y gyfrol mae'r awdur yn mynnu edrych ar bob golygfa o ongl anghyfarwydd.

Os yw'r testunau'n gyfarwydd i ddarllenwyr yr adolygiad hwn, allwn ni ddim cymryd y byddan nhw'n gyfarwydd i fwyafrif darllenwyr y gyfrol. Mae'r awdur yn cydnabod y ddeuoliaeth, yn y lle cyntaf, rhwng Cymru gapelgar ei fagwraeth a'r Gymru ôl-gristnogol yr ydyn ni'n byw ynddi bellach heb sôn wrth gwrs mai cyfrol Saesneg yw hon yn cyflwyno emynau gyfansoddwyd yn Gymraeg i gynulleidfa ddi-Gymraeg. At hynny, mae'r ffaith fod yr awdur yn cyfeirio'n gyson at faes arall y mae'n awdurdod arno, sef llenyddiaeth yr Unol Daleithiau, yn cynnig golygfa arall, wahanol eto, i ddarllenydd sy'n gyfarwydd â'r daith.

Mae yma gyfieithiad o bob emyn o waith M. Wynn ei hun gan fwyaf ac mae'r rheiny hefyd yn cynnig golwg wahanol ar y gwreiddiol. Mae'n ddifyr darllen fel mae o'n gweld pwysigrwydd yr ail berson

unigol 'ti' i ddiwinyddiaeth y Gymraeg, mae'n cynnig agosatrwydd i ni sy'n anodd ei gyfieithu i'r Saesneg.

Pwt cymharol fyr sydd am bob emyn ond eto mae yma linynnau'n estyn trwy'r gyfrol. Mae'n gyfrol hanesyddol. Os yw'r awdur wedi ei fagu mewn un cyd-destun cymdeithasol mae'r emynau wedi eu cyfansoddi mewn cyd-destun gwahanol eto ac mae'r awdur yn mynnu ein tynnu ni'n ôl at y ffaith ganolog honno mai gwerinwyr cyffredin gyda phrin un droed allan o anllythrennedd oedd yr awduron hyn. Roedd y diwygiadau yr oedden nhw'n eu cynrychioli, yn eu tro, yn cynrychioli symudiad mawr i ddemocrateiddio crefydd ac yn ei sgil, ddysg ein gwlad.

Mae diwinyddiaeth drom yn gefndir i fwyafrif yr emynau, ond eto, fel mae M. Wynn yn dangos mae'r emynau yn fodd o egluro'r ddiwinyddiaeth honno i gyfoeswyr oedd yn dal, i raddau helaeth, yn anllythrennog. Mae'r tri emyn ar ddiwedd y casgliad yn fwy uniongyrchol efallai, a phob un yn ei ffordd ei hun yn profi parhad y traddodiad.

Dyna i chi 'Calon Lân', gan Gwyrosydd, enw crand i feddwyn hoffus oedd yn tipyn o fardd gwlad a chlust dda ganddo at ffasiynau'i oes. All neb wadu'i lle i hon mewn tafarn ac ar deras rygbi. Ac eto, dyna brofi calon y gwir, bod diwinyddiaeth y mwyafrif yn perthyn i'r dafarn a'r ganolfan siopa a'r maes chwarae yn ogystal, ac yn amlach o lawer, na'r capel a'r eglwys.

Ac yn hynny o beth mae M. Wynn yn cloi pob ysgrif gyda phwt am y dôn sy'n cyd-fynd amlaf â'r emyn, y cerbyd sy'n cludo'r geiriau hyn i glust y gwrandäwr.

Cyfrol un eisteddiad yw hon ond cyfrol i'w thrysori hefyd. Moethusrwydd cynnwys a ffurf. Pecyn perffaith. Anrheg berffaith.

***RAJ***

# Gweddi

Gweddi ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol 2024

*1 Corinthiaid 13: 13 – 'Mewn gair, y mae ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, yn aros. A'r mwyaf o'r rhain yw cariad.'*

Dad cariadus,
Helpa ni i glywed lleisiau y rhai hynny sy'n dioddef tlodi eithafol.
Mae'n anodd gwrando ar straeon o boen.
Dangos i ni sut y gall tosturi at eraill ddod ag iachâd a chyflawnder bywyd i bawb.
Helpa ni i ddeall ein bod ni yn un trwy dy gariad di, oherwydd mae pob bod dynol yn cael ei garu, y tu hwnt i fesur.

Dad cariadus,
Rwyt ti'n galw arnom i adeiladu dy deyrnas o gyfiawnder, trugaredd a gwirionedd.
Tydi hynny ddim yn dasg i'r rhai gwangalon.
Pan fyddwn ni'n colli synnwyr o bwrpas, llewna ni gyda ffydd.
Pan fyddwn ni'n amau neu'n anoebeithio a digaloni, llewna ni gyda gobaith.
Pan fyddwn ni'n mynd heibio ein cymydog fel na fyddem yn eu hadnabod,
Llewna ni gyda'r cariad fyddai'n gwneud i ni droi yn ôl ac yn mynd atyn nhw i'w cynorthwyo.

Yn enw Crist,

Amen

*Cyfieithiad o weddi oddi ar wefan Cymorth Cristnogol*

**Heb fod yng nghyfarfodydd yr wythnos o'r blaen?**

**Dewch! Beth am fentro?**

**Peidiwch â phoeni mae croeso cynnes i aelodau newydd bob amser.**

**Cymdeithas Gweddi a Choffi.**
Bydd y Cylch Gweddi a Choffi yn ail-gyfarfod yn y Festri bob bore dydd Mawrth wythnos ar ôl y Pasg am 10.30. Ac mae cyfle i eraill ymuno ar Zoom am 11 o'r gloch. Bob yn ail wythnos mae'r arian am y baned yn mynd tuag at Y Banc Bwyd a'r Croeso Cynnes.
**Paned a sgwrs. Be well?**

**Croeso Cynnes**
Bydd y CROESO CYNNES (Paned, Cawl a Chymdeithas) yn ail – ddechrau ar Ebrill 17 (wedi toriad dros y Pasg). Cofiwch bod y Morlan ar agor bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch i gynnig lle cynnes i fwynhau sgwrs, paned a chawl. Mae gwahoddiad cynnes i chi ddod yno neu, i groesawu a helpu. Mae rhestr o wirfoddolwyr. Os ydych yn barod i wirfoddoli a wnewch gysylltu â Eifion neu Eleri os gwelwch yn dda.
**Panad a thamad. Gwell fyth!**

**Astudiaeth Ffydd a Phaned**
Bob prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom. Manylion gan Eifion.
**Mentrwch unwaith. Fe fydd yn agoriad llygad!**

# SULIAU Ebrill

## Blaenor y mis: Gwerfyl Pierce Jones

Morfa am 10:00
7 Ebrill – Huw Roderick
14 Ebrill – Eifion Roberts (Cymun)
21 Ebrill – Judith Morris
28 Ebrill – Eifion Roberts/Y Gymanfa ym Methel, Tal-y-Bont

Blodau
7 Ebrill – Arwel a Sharon – cyfraniad at UNICEF Gaza
14 Ebrill – Lona Jones
21 Ebrill – Mair Jones a Carys Davies
28 Ebrill – Sul y Gymanfa – Bethel, Tal-y-Bont

Ebenezer am 2:15
14 Ebrill – Eifion Roberts
28 Ebrill – Eifion Roberts (Cymun)

### Cinio Bara a Chaws dan nawdd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesa' yn cael ei gynnal yng **Nghanolfan Sant Paul, ddydd Llun, 8fed o Ebrill,** o hanner dydd tan hanner awr wedi un o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb!